

Maes risg I – Gweithrediadau	Tebygolrwydd (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Effaith (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Sgôr (tebygolrwydd x effaith)	Rheolaeth	Perchennog	Profi	Sylw
Y cyflogwr yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau am weinyddu'r cynllun gan arwain at gwynion gan aelodau'r cynllun	2	3	6	Bwletinau a Chylchlythyrau; diweddariadau gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Cyngori'r Cynllun; Yr Ysgrifenyddiaeth yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cydnabod, ac yn chadarnhau bod camau priodol wedi cael eu cymryd. Cyfathrebu â gweithwyr.	Rheolwr y Cynllun	Parhaus	Cyfathrebu'n rheolaidd â'r cyflogwr am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân
Cronni gwybodaeth mewn nifer fach o swyddogion a risg bod staff allweddol yn gadael	2	3	6	Cynlluniau Parhad Busnes Cynllunio ar gyfer Olyniaeth Ymgynghorwyr allanol – aelodaeth o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Perthynas agos â'r ATAau eraill yng Nghymru	Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	
Trychineb weithredol (tân/llifogydd methiant systemau technoleg gwybodaeth)	3	3	9	Gweithdrefnau parhad busnes yn bodoli ar gyfer gweinyddwr Dibynnu ar gopiâu wrth gefn ac adfer Conwy/Dyfed/ GTAGC Materion ymosodiad seiber	Gweinyddydd Pensiynau	Blynyddol	Cafodd cynllun cydnerthedd busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ei wirio fel rhan o'r gwaith o adnewyddu'r contract yn Ionawr 2017.
				Cynlluniau parhad busnes ar gael ar gyfer Rheolwr y Cynllun	Pennaeth Cyllid	Blynyddol	Darperir gweithdrefnau â dogfennau i sicrhau parhad; caiff y cynllun ei adolygu yng Ngorffennaf 2018.
Data aelodau yn anghyflawn neu'n anghywir	3	3	9	Adroddiad blynyddol gan y gweinyddwr, a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllun cywiro Cronfa Bensiwn Dyfed yn adolygu ansawdd data bob blwyddyn Cynllun Gwella Data ar gael	Gweinyddydd Pensiynau /Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	Cafwyd adroddiad gan y gweinyddwyr; os bydd unrhyw wallau, bydd cynllun cywiro yn cael ei ddyfeisio gan Reolwr y Cynllun a bydd yn cael ei fonitro dros y flwyddyn.
				Nodiadau 'Ddim yn hysbys yn y cyfeiriad hwn' o ddatganiadau blynyddol	Gweinyddydd Pensiynau	Blynyddol	Gweinyddwyr yn cysylltu â Rheolwr y Cynllun i sicrhau bod pob ymdrech resymol yn cael ei wneud i ganfod cyfeiriad cyfredol yr aelod.
Methiant/camweinyddu'r broses weinyddol	2	3	6	Cytundeb ffurfiol ar gael gyda'r gweinyddydd, gan gynnwys Cytundeb Lefel Gwasanaeth	PSC (Cyllid ac Adnoddau)	Bob 3 blynedd	Cytundeb tair blynedd – mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth nesaf i gael ei gynnal 01/01/2020
				Cytuno'n glir ar lefelau'r Awdurdod a'u cadw'n gyfoes	PSC (Cyllid ac Adnoddau)	Bob 3 blynedd	Cytunwyd fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn Ionawr 2017
				Adolygu adroddiadau archwilio annibynnol am brosesau'r gweinyddydd	Pennaeth Cyllid	Blynyddol	
				Adroddiadau ysgrifenedig a dialog barhaus â'r gweinyddydd	Pennaeth Cyllid/ Rheolwr Cyflogres CBS Conwy	Blynyddol	Codir unrhyw faterion ar sail <i>ad hoc</i> , ac maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn
				Ymdrinnir â chwynion drwy'r Drefn Annibynnol ar gyfer Datrys Anghydfodau	Pennaeth Cyllid	Fel y bo angen	Dadansoddir y cwynion fel sail i newidiadau i'r systemau pan fo angen

<b>Maes Risg 2 – Ariannol</b>	Tebygol- rwydd (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Effaith (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Sgôr (tebygolrwydd x effaith)	Rheolaeth	Perchennog	Profi	Sylw
Ffioedd gormodol gan gyflenwyr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chronfa Bensiwn Dyfed	1	3	3	Adolygu cyflenwyr y cynllun yn y cyfnod tendro ac yn ystod contractau	PSC (Cyllid ac Adnoddau)	Bob 3 blynedd	Mae anfonebau ffioedd yn cael eu gwirio pan maent yn cyrraedd Mae'r gyllideb flynyddol yn cael ei chynnwys yn y cynllun gosod y gyllideb
Twyll ariannol/ymddygiad twyllodrus	3	2	6	Cynnal proses monitro twyll ariannol ar daliadau cyfraniadau sy'n dod i mewn o gymharu â'r rhestr o gyfraniadau	Gweinyddydd Pensiynau	Blynyddol	Rhoddwyd cyfrif am bob cyfraniad, ac maent wedi'u talu yn unol â'r rhestr o gyfraniadau
				Gwirio arian sy'n mynd i mewn ac allan o'r cynllun o gymharu â rhagolygon y cynllun – cysoni'r holl arian	Gweinyddydd Pensiynau	Blynyddol	Mae'r rhagolygon cyfrifon o gymharu â'r ffigyrau gwirioneddol yn cael eu gwirio a'u mantoli
				Cynnal ymarferion paru data i ganfod anghysonderau	PSC (Cyllid ac Adnoddau)	Bob 3 blynedd	Cynhaliwyd yr ymarferiad diwethaf ym mis Mai 2016; Mae'r gweinyddwyr yn cynnal cynllun gwella data yn 2018
				Mae gweinyddiaeth y gronfa bensiwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan archwiliad	Gweinyddydd Pensiynau	Blynyddol	Adroddiad ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed
				Y Fenter Dwyll Genedlaethol	Gweinyddydd Pensiynau	Blynyddol	Angen proses gadarn ar gyfer sicrhau bod rolau allweddol yn gwbl hysbys ac yn cael eu profi Gweinyddwyr yn cael gwybod ar unwaith gan y Pennaeth Cyllid am achosion o farw mewn gwasanaeth Gweinyddwyr yn sgrinio marwolaethau bob mis.

<b>Maes risg 3 – Llywodraethu Cyllid</b>	Tebygol- rwydd (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Effaith (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Sgôr (tebygolrwydd x effaith)	Rheolaeth	Perchennog	Profi	Sylw
Gwneud penderfyniadau gwael oherwydd cyngor cyfyngedig neu anghywir	2	3	6	Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwys Rhwydwaith Llywodraeth Leol Hyfforddi'r holl staff a'r aelodau Y Bwrdd Pensiwn Lleol yn craffu	Rheolwr y Cynllun	Fel y bo angen	Ymgynghorwyr allanol i ddod i gyfarfod y Bwrdd Pensiwn os yw'n delio â meysydd sydd angen gwybodaeth benodol
Nifer yr ymddeoliadau cynnar yn uwch na'r rhagdybiaethau actiwaraid	1	3	3	Ar y cyfan, mae'r gweithwyr yn cwrrd â chost straen o'u pensiwn Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn monitro ymddeoliadau ar sail afiechyd ac yn eu cynnwys yn y prisiadau ar gyfer y dyfodol. Mae Bwrdd Rheoli Iechyd Galwedigaethol ar gael i adolygu pob salwch tymor hir ac i fonitro'r ymddeoliadau posibl ar sail afiechyd.	Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	Mae polisi disgresiynol yn caniatáu i'r Prif Swyddog Tân ystyried y mater fesul achos, mae cyllid yn cael ei ystyried bob amser Cafodd profiad ei adrodd i Adran Actiwari'r Llywodraeth a Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017
Y cyflogwr yn methu talu cyfraniadau i'r cynllun	1	4	4	Rheolwr cyllid a gweinyddwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn monitro taliadau cyfraniadau yn fisol	Rheolwr y Cynllun	Misol	Talwyd 100% o'r cyfraniadau yn unol â'r Rhestr o Gyfraniadau yn 2017/18
				Didynnu cyfraniadau bob mis a'u talu ar unwaith i gyfrif y gronfa bensiwn	Rheolwr y Cynllun	Misol	
				Archwiliad blynyddol	Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	Cadarnhawyd y Cyfrifon Pensiynau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 17 gan yr archwilydd yn ddiamod.

Maes risg 4 – Rheoleiddio a chydymffurfiaeth	Tebygolrwydd (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Effaith (1: lleiaf tebygol, 10: mwyaf tebygol)	Sgôr (tebygolrwydd x effaith)	Rheolaeth	Perchennog	Profi	Sylw
Newid Rheoleiddiol	3	3	9	Cylchlythyrau a Bwletinau gan Lywodraeth Cymru System gynhwysfawr o ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Aelod o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Pennaeth Cyllid yw'r swyddog allweddol ar gyfer gweithredu, gyda chymorth gan y Prif Swyddog Cynorthwyol	Rheolwr y Cynllun		Swyddogion yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun a digwyddiadau eraill i ddilyn y datblygiadau o ran materion.
Methu rhoi gwybod i'r Rheolydd Pensiynau am achosion o dorri'r gyfraith	2	3	6	Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael hyfforddiant ar achosion o dorri'r rheolau; mae polisi Torri'r Gyfraith ar gael ar wefan yr Awdurdod Monitro drwy'r cwynion a ddaw i law. Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chronfa Bensiwn Dyfed	Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	Y Bwrdd Pensiwn yn cael gwybod am ofynion y Rheolydd Pensiynau a'r weithdrefn ar gyfer delio ag achosion o dorri rheolau. Rhoddir manylion yn yr adroddiadau diweddarau i'r Bwrdd Pensiwn Lleol
Torri deddfwriaeth diogelu data gan arwain at gwynion gan aelodau'r cynllun	3	3	9	Protocol diogelu data yr Awdurdod Tân ac Achub Trefniadau da yn bodoli Rheoliad GDPR yn cael ei roi ar waith Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chronfa Bensiwn Dyfed	Rheolwr y Cynllun	Rhagfyr 2018	Mae effaith y rheoliad GDPR yn cael ei adolygu ar hyn o bryd; bydd yr holl newidiadau angenrheidiol yn cael eu prosesu yn ystod 2018
Methu dehongli'r rheolau neu'r ddeddfwriaeth yn gywir	3	3	9	Mae gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn gofnod hyfforddiant cyfoes a dogfennol i ddangos eu bod wedi cwblhau deunydd addysgol ar gyfer y cynllun yn benodol a chan y Rheolydd Pensiynau. Mae hyfforddiant cynefino ar gael i aelodau newydd.	Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	Mae'r holl unigolion perthnasol wedi cwblhau'r deunydd addysgol Dadansoddiad parhaus o hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn
				Mae CIPFA wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar y fframwaith gwybodaeth a sgiliau ar gyfer y gronfa pensiwn. Mae'r PSC (Cyllid ac Adnoddau) yn sicrhau bod y Cod yn cael ei weithredu.	PSC (Cyllid ac Adnoddau)	Blynyddol	Adroddwyd ynghylch cydymffurfiaeth yn archwiliad blynyddol y gronfa pensiwn yn 2017
				Cyngor technegol a'r wybodaeth ddiweddaraf	Rheolwr y Cynllun	Blynyddol	Daw'r wybodaeth ddiweddaraf gan yr awdurdod sy'n gyfrifol, bwrdd cynghori'r cynllun ac ymgynghorwyr proffesiynol; dilynr hynny.
Gwrthdaro rhwng buddiannau	1	2	3	Bwrdd Pensiwn yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau cyfreithiol	Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn	Yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol	Mae pob aelod o'r bwrdd pensiwn wedi cwblhau deunydd addysgol
				Holl aelodau'r bwrdd pensiwn yn datgan unrhyw wrthdaro ac unrhyw wrthdaro posibl	Rheolwr y Cynllun	Parhaus	Holl aelodau'r bwrdd pensiwn wedi llofnodi'r ddogfen wrthdaro, a'i chofnodi yn y gofrestr wrthdaro. Bydd nodyn atgoffa, ac unrhyw newidiadau neu wrthdaro ychwanegol, yn cael eu cofnodi ymhob cyfarfod o'r bwrdd pensiwn.

## Nodyn Cyfarwyddyd

### Sut i ddadansoddi a sgorio risgiau a ganfyddir

Mae'r matrices sgorio risgiau yn seiliedig ar debygolrwydd a chanlyniad. Po fwyaf tebygol yw'r digwyddiad neu'r sefyllfa, a pho fwyaf yr effaith petai hynny'n digwydd, yr uchaf yw sgôr y risg. Mae'r sgôr yn cael ei chyfrifo drwy luosi'r gyfradd tebygolrwydd (1-5) gyda'r gyfradd canlyniad (1-5). Er enghraifft, y sgôr isaf bosibl i ddigwyddiad neu sefyllfa yw 1, sef annhebygol iawn o ddigwydd a dim ond canlyniadau dibwys petai'n digwydd (1 X 1), a'r sgôr uchaf bosibl yw 25 i ddigwyddiad neu sefyllfa sy'n bron yn sicr o ddigwydd ac a allai gael canlyniadau mawr petai'n digwydd (5 X 5).

Canfyddiad o risg – mae'n bosibl y bydd gan wahanol bobl ganfyddiadau cwbl wahanol o risg. Gallai effaith y gwahaniaethau hyn gael eu hadlewyrchu yn eu harferion sgorio, gyda rhai pobl yn ystyried pethau'n fwy optimistaidd ac yn diystyru pa mor ddifrifol yw sefyllfa bosibl.

Gellir goresgyn y gwahaniaethau drwy gael yr un bobl i sgorio (er cysondeb) a thrwy eu hannog i fod yn hunanymwybodol ac i gydnabod yn agored eu harddulliau personol eu hunain. Drwy gael pobl sydd â dull cwbl wahanol i gydweithio gellir cael cydbwysedd defnyddiol oherwydd byddant yn herio ffordd ei gilydd o feddwl ac yn helpu i leihau effeithiau eu rhagfarnau unigol.

<b>TEBYGOLRWYDD</b>	5 Bron yn sicr	5	10	15	20	25
	4 Tebygol	4	8	12	16	20
	3 Posibl	3	6	9	12	15
	2 Annhebygol	2	4	6	8	10
	1 Annhebygol iawn	1	2	3	4	5
		1 Dibwys	2 Bach	3 Canolig	4 Arwyddocaol	5 Mawr
		<b>CANLYNIAD</b>				

Ffordd arall o fynd i'r afael â her rhagfarn bersonol yw sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu diffinio fel effeithiau gwirioneddol, e.e. fel rhai â hyd at £1,000 o ganlyniad ariannol.

## Y raddfa sgorio tebygolrwydd

Lefel	Disgrifiydd	Math o debygolrwydd a ragwelir/sy'n bosibl
5	Bron yn sicr	<p>85% o siawns y bydd yn digwydd.</p> <p>Disgwylir iddo ddigwydd, a hynny'n cyn bo hir fwy na thebyg.</p> <p>Gwyddom ei fod wedi digwydd mewn gwasanaethau tân ac achub.</p> <p>Bydd bron yn siŵr o ddigwydd.</p>
4	Tebygol	<p>60% - 84% o siawns y bydd yn digwydd.</p> <p>Mae'n fwy na thebyg o ddigwydd.</p> <p>Mae'n fwy o tebygol o ddigwydd nag o beidio â digwydd.</p> <p>Mae wedi digwydd o'r blaen mewn gwasanaethau tân ac achub.</p> <p>Disgwylir iddo ddigwydd.</p>
3	Posibl	<p>31% - 59% o siawns y bydd yn digwydd.</p> <p>Gallai ddigwydd rywbyrd.</p> <p>Mae wedi digwydd o'r blaen ond fel arfer mewn mathau gwahanol o sefydliadau.</p>
2	Annhebygol	<p>11% - 30% o siawns y bydd yn digwydd.</p> <p>Mae'n bosibl y gallai ddigwydd rywbyrd.</p> <p>Mae'n fwy tebygol o beidio â digwydd nag o ddigwydd.</p> <p>Mae siawns fach iawn y gallai ddigwydd rywbyrd.</p>
1	Annhebygol iawn	<p>Llai na 10% o siawns y bydd yn digwydd.</p> <p>Gallai ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol.</p> <p>Nid yw erioed wedi digwydd yn y sector cyhoeddus o'r blaen.</p> <p>Mae'n annhebygol iawn o ddigwydd.</p>

## Y raddfa sgorio effaith

Lefel	Disgrifydd	Math o effaith sy'n ddisgwyliedig/bosibl
5	Mawr	<p>Methu cyflawni'r holl amcanion/canlyniadau arfaethedig, neu'r rhan fwyaf ohonynt.</p> <p>Methu cyflawni'r holl swyddogaethau craidd a/neu wasanaethau critigol, neu'r rhan fwyaf ohonynt.</p> <p>Tarfu mawr ar weithrediad arferol.</p> <p>Colli lefel uchel o hyder y cyhoedd yn yr Awdurdod.</p> <p>Ymyriad gan y Llywodraeth.</p> <p>Colli bywyd, anafiadau difrifol/lluosog neu'n newid bywyd.</p> <p>Niwed amgylcheddol mawr lleol/ cenedlaethol arwyddocaol cenedlaethol</p> <p>Mwy na £501,000 o golled ariannol.</p>
4	Arwyddocaol	<p>Methu cyflawni un neu nifer fach o amcanion/canlyniadau arfaethedig.</p> <p>Methu cyflawni un neu nifer fach o agweddau ar swyddogaethau craidd a/neu wasanaethau critigol.</p> <p>Rhywfaint o darfu arwyddocaol ar weithrediad arferol.</p> <p>Anaf(iadau) difrifol yn golygu bod yn ysbyty am gyfnod hir.</p> <p>Colli rhywfaint o hyder yr Awdurdod ymysg y cyhoedd.</p> <p>Arolwg arbennig neu fesurau arbennig.</p> <p>Rhwng £251,000 a £500,000 o golled ariannol.</p>
3	Canolig	<p>Lefel arwyddocaol o darfu ar swyddogaethau craidd a/neu wasanaethau critigol.</p> <p>Anaf(iadau) yn golygu bod yn yr ysbyty am gyfnod byr.</p> <p>Colli rhywfaint o hyder yn yr Awdurdod ymysg y cyhoedd.</p>

		<p>Niwed canolig i'r amgylchedd lleol.</p> <p>Rhwng £51,000 a £250,000 o golled ariannol.</p>
2	Mawr	<p>Methu cyflawni amcan adrannol.</p> <p>Mymryn o darfu ar swyddogaethau craidd a/neu wasanaethau critigol.</p> <p>Anaf(iadau) yn gofyn am gymorth cyntaf yn unig.</p> <p>Rhywfaint o sylw negyddol yn y wasg leol.</p> <p>Niwed bach iawn i'r amgylchedd lleol.</p> <p>Rhwng £11,000 a £50,000 o golled ariannol.</p>
1	Dibwys	<p>Rhywfaint o anhawster o ran cyflawni amcanion adrannol.</p> <p>Mymryn o darfu ar wasanaethau arferol.</p> <p>Dim anafiadau.</p> <p>Dim sylw ar y cyfryngau.</p> <p>Dim difrod i'r amgylchedd lleol.</p> <p>Hyd at £10,000 o golled ariannol.</p>



## Sut i flaenoriaethu risgiau a ganfuwyd (“amlygiad i risg”)

Pwrpas y cam hwn yw gwahaniaethu rhwng lefel yr amlygiad i risg y mae'r Awdurdod yn gallu byw ag o, a lefel yr amlygiad i risg sy'n gofyn am weithredu ar unwaith.

Gwerth	Graddfa flaenoriaeth	Beth ddylai ddigwydd
20-25	Uchel iawn Risg yn annioddefol o uchel	Dylid cymryd camau ar frys ac ar unwaith, gan atal pob gweithgaredd arall neu gael rhagor o gymorth os oes angen hyd nes bydd camau lliniaru risg wedi digwydd.
12-16	Uchel Risg yn sylweddol	Dylid cynllunio camau ar frys, gan ddyrannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn glir, a gosod terfynau amser llym.
8-10	Canolig uchel Risg yn ganolig	Dylid cynllunio camau i leihau'r risg.
4-6	Canolig isel Risg yn weddol	Sicrhau bod rheolaethau ymarferol rhesymol ar gael. Ystyried ei symud i gofrestr risgiau ar lefel y gwasanaeth.
1-3	Isel	Nid oes raid cymryd camau gan fod y risg yn fach. Ystyried ei symud i gofrestr risgiau ar lefel y gwasanaeth.